# IRM Cymru
# Adroddiad Trosolwg 2010–13

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb gweithredol** | **3** |
| **Maint y gweithgarwch a dadansoddi'r ceisiadau** | **5** |
| **Mynychwyr y panel adolygu annibynnol a'r dogfennau a ystyriwyd** | **9** |
| **Rhesymau dros benderfyniad yr FSP i gymhwyso** | **10** |
| **Canlyniad ceisiadau** | **12** |
| **Rhesymau pam fod argymhelliad y panel adolygu annibynnol yn cyd-fynd â phenderfyniad arfaethedig yr FSP i beidio â chymeradwyo/ail-gymeradwyo** | **14** |
| **Rhesymau pam nad yw argymhelliad y panel adolygu annibynnol yn cyd-fynd â phenderfyniad arfaethedig yr FSP** | **16** |
| **Arfer dda a nodwyd gan y panel adolygu annibynnol** | **18** |
| **Pryderon ynglŷn â'r arferion a nodwyd gan y panel adolygu annibynnol** | **20** |
| **Amserlenni** | **25** |
| **Adborth ar Argymhellion IRM Cymru** | **26** |
| **I'r FSPau** | **28** |
| **Casgliad** | **30** |

# Crynodeb gweithredol

Dyma adroddiad o weithgarwch Mecanwaith Adolygu Annibynnol Cymru (IRM rhwng 2010-2013. Caiff ei gyhoeddi fel y gall yr aelodau rheiny o'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol sydd â chyfrifoldeb neu ddiddordeb mewn gwasanaethau maethu a mabwysiadu, ddeall gwaith yr IRM yn well, a dysgu am ganlyniadau ceisiadau i IRM Cymru dros y tair blynedd gyntaf y bu'n weithredol.

**Talfyriadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn**

| | |
|---|---|
| IRM | Mecanwaith Adolygu Annibynnol |
| FSP | Darparwr gwasanaeth maethu |
| FSW | Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003 |
| NMS | Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003 |
| IRD | Adolygiad Annibynnol o Benderfyniadau (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) Rheoliadau 2010 |

Mae'r IRM wedi ei weithredu gan BAAF Cymru ar ran Llywodraeth Cymru ers mis Ebrill 2010 pan ddaeth Rheoliadau Adolygiad Annibynnol o Benderfyniadau (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010 a Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Diwygiad) Cymru 2010 i rym. Caiff ei ariannu fel gwasanaeth rhan amser wedi ei staffio gan reolwr cytundebau a gweinyddwr.

Cyflwynwyd y Mecanwaith (neu wasanaeth) er mwyn cynyddu hyder y cyhoedd yn nhryloywder y broses gymeradwyo ac er mwyn annog mwy o bobl i ystyried maethu neu fabwysiadu.

Mae gan IRM Cymru "restr ganolog" o aelodau, cynghorwyr ac ysgrifenyddion y panel adolygu annibynnol gyda'r sgiliau a'r profiad perthnasol, y gellir galw arnynt i gymryd rhan yn y paneli adolygu. Fe'u penodwyd drwy gytundeb ffurfiol ac ar ôl cwblhau pob prawf perthnasol.

## Rôl y Panel Adolygu Annibynnol

Dyma'r rhai sy'n gymwys i wneud cais am adolygiad annibynnol:

- Darpar fabwysiadwyr/gofalwyr maeth lle, ar ôl cwblhau asesiad ohonynt, y mae'r asiantaeth fabwysiadu/FSP o'r farn na ddylid eu cymeradwyo, a rhieni mabwysiadu/gofalwyr maeth lle, ar ôl eu hadolygu, y mae'r asiantaeth yn cynnig nad ydynt yn addas mwyach i fabwysiadu/maethu;

- Gofalwyr maeth sydd wedi eu cymeradwyo ar hyn o bryd lle mae'r FSP yn bwriadu newid telerau eu cymeradwyaeth; a
- Oedolion sydd wedi eu mabwysiadu a gafodd eu mabwysiadu ar neu ar ôl 30 Rhagfyr 2005, neu berthynas gwaed i rywun a fabwysiadwyd ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw, lle mae'r asiantaeth fabwysiadu'n cynnig naill ai (a) na fydd yn parhau a chais ar gyfer datgelu gwybodaeth sydd wedi ei gwarchod; neu (b) y bydd yn datgelu'r wybodaeth yn erbyn ewyllys testun yr wybodaeth.
- Ni ellir gwneud y penderfyniad arfaethedig, a elwir yn "benderfyniad cymhwyso", gan ESP neu asiantaeth fabwysiadu nes y bydd panel yr asiantaeth ei hun wedi gwneud argymhelliad.
- Nid proses apêl yw'r IRM. Mae'r panel adolygu annibynnol yn gwneud argymhelliad o'r newydd ac mae'r penderfyniad terfynol yn parhau gyda phenderfynwr yr FSP neu'r asiantaeth fabwysiadu, ac mae'n rhaid iddo ystyried argymhelliad y panel gwreiddiol yn ogystal ag argymhelliad y panel adolygu ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

## Ystadegau allweddol

- Derbyniodd IRM Cymru 34 o geisiadau dros y tair blynedd rhwng 2010-13, a derbyniwyd 29 ohonynt ac aeth 24 ymlaen i wrandawiad gan y panel adolygu annibynnol.
- Roedd y ceisiadau a dderbyniwyd i gyd yn dod gan ddarpar ofalwyr maeth neu rai a gymeradwywyd.
- Roedd cyfanswm o 15 o'r ceisiadau gan ofalwyr carennydd (ym mhob achos ond un, neiniau a theidiau oedd y rhain).
- Roedd cyfanswm o 18 o'r ceisiadau yn ymwneud a chymeradwyo yn y lle cyntaf, 13 yn ymwneud a'r bwriad i ddod â'r gymeradwyaeth i ben a thri ynglŷn â newid i delerau'r gymeradwyaeth.
- Roedd cyfanswm o 26 o'r ceisiadau yn deillio o 11 awdurdod lleol gwahanol.
- Roedd saith o'r ceisiadau'n ymwneud a chwe darparwr gwasanaeth maethu annibynnol gwahanol.
- Roedd un cais anghymwys yn ymwneud ag asiantaeth fabwysiadu wirfoddol.
- Roedd argymhelliad y panel adolygu annibynnol yn cyd-fynd a phenderfyniad arfaethedig y darparwr gwasanaeth maethu i beidio â chymeradwyo/ail-gymeradwyo neu newid telerau cymeradwyo'r gofalwr maeth mewn naw o'r 24 cais a wrandawyd, er nad oedd y rhesymau dros wneud hynny bob amser yr un fath a'r rhai a roddwyd gan yr FSP.
- Yn y 15 achos lle'r oedd argymhelliad y panel adolygu annibynnol yn wahanol i benderfyniad arfaethedig yr FSP, penderfyniad yr FSP oedd derbyn argymhelliad y panel adolygu mewn 10 achos.

# Maint y gweithgarwch a dadansoddiad o'r ceisiadau

## Tabl 1: Ceisiadau i'r IRM hyd yma

| Blwyddyn | Ceisiadau | Derbyniwyd | Anghymwys | Tynnwyd yn ôl* | Gwrandawyd | Cyfarfodydd y Panel |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2010/11** | 11 | 10 | 1 | 2 | 8 | 9 (+ 1 tele gynhadledd) |
| **2011/12** | 11 | 9 | 2 | 1 | 8 | 10 (+2 tele gynhadledd) |
| **2012/13** | 12 | 10 | 2 | 2 | 8 | 8 |
| **Cyfanswm** | 34 | 29 | 5 | 5 | 24 | 27 (+3 tele gynhadledd) |

*Tynnwyd tri o'r ceisiadau yn ôl gan y darpar ofalwyr maeth carennydd oherwydd bod y cynllun gofal wedi newid ar gyfer y plant o dan sylw.

## Ceisiadau a gafwyd ac a dderbyniwyd gan IRM Cymru rhwng 1 Ebrill 2010 a 31 Mawrth 2013

**Rhwng 1 Ebrill 2010 a 31 Mawrth 2013 roedd**

- **34 o geisiadau i IRM Cymru**
- **derbyniwyd 29 o'r rhain**

**Roedd 33 o geisiadau gan ddarpar ofalwyr maeth neu rai a gymeradwywyd**

**Roedd 1 (anghymwys) gan ddarpar fabwysiadwyr**

**Roedd y ceisiadau carennydd i gyda gan neiniau a theidiau ac eithrio un gan fodryb rieiniol**

## Tabl 2: Mathau o geisiadau i'r IRM

| Blwyddyn | Carennydd | Prif ffrwd | Penderfyniad cymhwyso'n ymwneud a: | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cymeradwyo cychwynnol | Newid y telerau | Terfynnu'r gymeradwyaeth |
| **2010/11** | 7 | 4 | 6 | 3 | 2 |
| **2011/12** | 5 | 6 | 6 | 0 | 5 |
| **2012/13** | 3 | 9 | 6 | 0 | 6 |

## Statws yr ymgeiswyr yn y 29 cais a dderbyniwyd



## Amrediad oedran ymgeiswyr

31-69 oed (gyda mwyafrif yr ymgeiswyr yn eu 40au)

## Ethnigrwydd ymgeiswyr


**49**
**gwyn Cymreig/ gwyn Prydeinig**

## Anghenion penodol


Ni fu unrhyw geisiadau am roi ystyriaeth i anabledd neu nam.

Ni fu unrhyw geisiadau am wrando ar gais yn Gymraeg.

## Lleoliad daearyddol ymgeiswyr yn yr achosion a dderbyniwyd



## Lleoliad daearyddol FSPau yn yr achosion a dderbyniwyd



# Mynychwyr y panel adolygu annibynnol a'r dogfennau a ystyriwyd

O'r 24 cais y gwrandawyd arnynt gan IRM Cymru, mynychodd pob un o'r ymgeiswyr gyfarfod y panel adolygu annibynnol mewn 15 allan o'r 17 achos lle'r oedd y cais gan gwpwl, ac ym mhob un o'r saith achos lle'r oedd gan ymgeisydd sengl. Mewn naw o'r ceisiadau y gwrandawyd arnynt, daeth yr ymgeiswyr a chefnogwyr gyda nhw. Roedd y rhain yn cynnwys perthynas, ffrind, partner, cynrychiolydd o Rwydweithiau Maethu neu Wasanaeth Cefnogi Annibynnol Gofalwyr (FISS), a chyfreithiwr.

Mae gan y panel adolygu annibynnol fynediad at yr holl ddogfennaeth a ystyriwyd gan banel yr FSP neu'r asiantaeth fabwysiadu ei hun, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall a ystyriwyd gan y penderfynwr wrth wneud y penderfyniad cymhwyso. Mae'r panel adolygu'n derbyn copi o'r cais a'r rhybudd o'r penderfyniad cymhwyso hefyd, gyda rhesymau yn ogystal ag unrhyw adroddiadau, geirda neu wybodaeth ysgrifenedig y mae ymgeiswyr yn ei rhoi i gefnogi eu cais.

Ym mhob achos, caiff y panel adolygu annibynnol adroddiad ysgrifenedig hân gynghorydd cyfreithiol i IRM Cymru ac mae ganddo fynediad at gyngor cyfreithio yn y gwrandawiad. Lle mae problemau meddygol, bydd cynghorydd meddygol IRM Cymru naill ai'n mynychu neu'n darparu adroddiad ar gyfer y panel adolygu.

Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan FSP yn y ceisiadau y gwrandawyd arnynt hyd yma wedi cynnwys adroddiadau asesu Ffurflen F BAAF a'r atodiadau; amrediad o ffurfiau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i gyflwyno adolygiad o ofalwyr maeth; ac asesiadau ac adroddiadau dichonolrwydd gan aseswyr annibynnol. Mae dogfennau eraill a ystyriwyd wedi cynnwys datganiadau gan y penderfynwr a Chadeirydd y panel maethu; nodiadau y cytunwyd arnynt gan dystion; copïau o e-byst rhwng yr FSP a'r ymgeiswyr neu weithwyr proffesiynol eraill; adroddiadau ysgol; adolygiadau statudol plant; nodiadau o gyfarfodydd cynllunio; cronoleg; adroddiadau goruchwylio misol gan y gweithiwr cymdeithasol sy'n goruchwylio; recordiadau o ymweliadau gweithwyr cymdeithasol, a recordiadau gofalwyr maeth. Mae dogfennau cefnogol gan ymgeiswyr wedi cynnwys geirda ychwanegol; llythyrau gan weithwyr iechyd proffesiynol sy'n gweithio gyda'r plentyn; ffotograffau, a datganiadau neu adroddiadau i gefnogi ynglŷn â materion iechyd a diogelwch.

# Rhesymau dros benderfyniad yr FSP i gymhwyso

Mewn rhai achosion, nid oedd y rhesymau dros y penderfyniad cymhwyso wedi eu nodi yn yr hysbysiad o'r penderfyniad cymhwyso (fel y nodwyd yn Rheol 28(6)(a) a 29(7)(a) o Reoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003. Yn yr achosion eraill, roedd yna, ym mhob achos, nifer o resymau wedi eu nodi. Daeth y rhain o dan y categorïau canlynol.

## Asesu

- Gwybodaeth negyddol newydd yn dod i'r amlwg.
- Dal gwybodaeth yn ôl oddi wrth yr asesydd, gan gynnwys maint a graddau llawn troseddau

## Gweithio gyda gweithwyr proffesiynol

- Diffyg gonestrwydd a bod yn agored gyda'r FSP.
- Diffyg gallu rhoi polisïau a gweithdrefnau'r FSP ar waith.
- Anallu i gyfathrebu'n effeithiol.

## Cartref

- Anghenion sy'n gwrthdaro neu'n cystadlu â'i gilydd rhwng y plentyn arfaethedig a phlentyn/plant sydd eisoes yn y cartref.
- Methu â chydnabod neu werthfawrogi effaith perthnasau trafferthus neu darfu o fewn y teulu ehangach.
- Diffyg llety tymor hir addas, cyllid yn ansicr neu gartref anhrefnus.

## Gallu i rianta a gofal diogel

- Methu bodloni amrediad o gymwyseddau sy'n ymwneud â gofalu am blant a darparu gofal diogel.
- Pryderon clir a sylweddol a pheryglon gan y teulu estynedig.
- Hanes o rianta eu plant eu hunain ac/neu ansawdd gofal gwael yn gyffredinol.
- Diffyg cysondeb gyda negeseuon i blant.
- Cynnydd sylweddol wedi ei wneud gan blentyn mewn lleoliad dilynol.

- Rhannu gwybodaeth gyfrinachol yn amhriodol.
- Perthynas gydgynllwyniol y gofalwr carennydd gyda rhiant y plentyn a phryderon a fydden nhw'n gallu blaenoriaethu anghenion y plentyn pan fyddai hynny'n gwrthdaro â rhai'r rhiant naturiol.

### Materion ffordd o fyw

- Defnydd amhriodol o e-byst a gwefannau rhwydweithio cymdeithasol.
- Ysmygu.
- Defnydd anaddas o gyllid.

### Iechyd a lles

- Anallu i gynnal perthnasau cadarnhaol neu weithredu'n effeithiol yn ystod cyfnodau o bwysau.

### Dysgu a datblygu

- Methu a manteisio ar gyfleoedd dysgu a datblygu neu dderbyn cyngor ynglŷn â hyfforddiant.
- Methu myfyrio ar eu harferion eu hunain.

# Canlyniadau ceisiadau

Yn y ddwy flynedd gyntaf, roedd 100 y cant o'r argymhellion a wnaed gan y panel adolygu annibynnol yn unfrydol. Yn y drydedd flwyddyn, roedd 50 y cant drwy fwyafrif.

**O'r 21 o geisiadau a wrandawyd oedd yn ymwneud ag addasrwydd neu barhad addasrwydd ymgeisydd i weithredu fel gofalwr maeth,** roedd argymhelliad y panel adolygu annibynnol yn cyd-fynd â phenderfyniad arfaethedig yr FSP i beidio â chymeradwyo/ ail-gymeradwyo mewn wyth achos (mewn tri o'r rhain roedd yr ymgeiswyr yn ofalwyr carennydd, ac yn y pump arall roedd yr ymgeiswyr yn ofalwyr prif ffrwd). Mewn un achos, nid oedd gan y panel adolygu annibynnol ddewis gan fod yr FSP yn gwrthod rhoi rhagor o fanylion y gofynnwyd amdanynt gan y panel.

Allan o'r wyth achos yma lle'r oedd y panel yn cyd-fynd â phenderfyniad arfaethedig yr FSP, y penderfyniad terfynol mewn saith achos oed i'r FSP beidio â chymeradwyo/ail-gymeradwyo'r ymgeiswyr. Yn yr achos arall, ail-gymeradwyodd yr FSP y gofalwyr, gan fynd yn groes i'w cynnig gwreiddiol i ddod â'r gymeradwyaeth i ben.

**Allan o'r 13 achos lle'r oedd y panel adolygu annibynnol yn argymell bod yr ymgeiswyr yn addas neu'n parhau i fod yn addas i weithredu fel gofalwyr maeth**, penderfyniad terfynol yr FSP oedd bod yr ymgeiswyr yn addas neu'n parhau i fod yn addas mewn wyth o'r achosion rheiny. Y penderfyniad terfynol mewn pum achos oedd bod yr ymgeiswyr yn anaddas/ddim yn addas mwyach.

O'r 13 achos uchod lle'r oedd y panel yn argymell bod yr ymgeiswyr yn addas/yn parhau yn addas i weithredu fel gofalwyr maeth, rhoddodd y panel adolygu gyngor hefyd mewn dau achos y dylid adolygu statws cymeradwyo'r gofalwr maeth, ac mewn pedwar achos, y dylid darparu hyfforddiant addas i'r gofalwyr maeth.

**O'r tri achos lle'r oedd y penderfyniad i gymhwyso'n ymwneud â newid i delerau cymeradwyo'r** gofalwyr maeth, roedd argymhelliad y panel adolygu annibynnol yn cyd-fynd a phenderfyniad arfaethedig yr FSP mewn un achos, a'r penderfyniad terfynol oedd y dylid newid telerau cymeradwyo'r gofalwr maeth.

Roedd penderfyniadau terfynol yr FSP yn y ddau achos lle na wnaeth y panel adolygu gefnogi'r newid arfaethedig i'r telerau cymeradwyo, fel a ganlyn:

1) Penderfyniad i beidio newid y telerau cymeradwyo (adolygiad blynyddol i'w gynnal heb oedi gan roi ystyriaeth benodol i ffiniau unrhyw leoliad yn y dyfodol).

2) Penderfyniad i ddod â'r lleoliad i ben. Yn yr achos hwn, nid oedd y panel adolygu wedi cefnogi'r newid arfaethedig i delerau'r cymeradwyaeth oherwydd roedd y panel yn ystyried bod yr ymgeiswyr yn gwbl anaddas i weithredu fel gofalwyr maeth.

*(Mae Rheoliadau'r IRD yn caniatáu i'r panel adolygu annibynnol roi cyngor yn yr achosion rheiny y gwrandawyd arnynt sy'n ymwneud ag addasrwydd/parhad addasrwydd. Ond, yn yr achosion rheiny y gwrandawyd arnynt o ran newid i delerau'r cymeradwyo, nid oes gan y panel adolygu unrhyw gylch gwaith i argymell dod â'r gymeradwyaeth i ben.)*

# Rhesymau pam fod argymhelliad y panel adolygu annibynnol yn cyd-fynd â phenderfyniad arfaethedig yr FSP i beidio â chymeradwyo/ail gymeradwyo

Roedd rhesymau'r panel pam fod eu hargymhellion yn cyd-fynd a phenderfyniad arfaethedig yr FSP i beidio â chymeradwyo/ail-gymeradwyo yn dod o dan y categorïau canlynol.

## Gofal carennydd

- Perthnasau ehangach y teulu a diffyg dealltwriaeth yr ymgeisydd o effaith yr holl broblemau a diffyg tystiolaeth eu bod wedi newid neu wedi myfyrio.
- Diffyg tystiolaeth y gallai'r ymgeisydd fodloni pob un o anghenion penodol y plentyn ar sail eu hanes yn rhianta eu plant eu hunain.
- Pwysau gan riant naturiol, h.y. mab/merch yr ymgeisydd.
- Pryderon na fyddai gofalwr carennydd yn gallu rheoli trefniadau cytundeb.

## Dealltwriaeth a'r gallu i fodloni anghenion y plentyn a darparu gofal diogel

- Diffyg dealltwriaeth o anghenion y plentyn, naill ai'n gyffredinol neu mewn meysydd penodol.
- Diffyg tystiolaeth y gallai' gofalwr adnabod peryglon neu beidio â gwrthsefyll gwybodaeth feirniadol (yn seiliedig ar beidio bod wedi rhannu gwybodaeth arwyddocaol yn ystod eu hasesiad).
- Dim digon o wybodaeth i ddod i'r casgliad y gellid lliniaru unrhyw berygl posibl.
- Yr angen i les y plant gael blaenoriaeth dros degwch i ymgeiswyr.

## Gweithio mewn partneriaeth

- Diffyg ymddiriedaeth rhwng yr awdurdod lleol a'r ymgeisydd.
- Methiant y gofalwr maeth i ddilyn y gweithdrefnau cywir.
- Disgwyliadau afreal ynglŷn â chymorth.
- Diffyg ystyriaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n agored i niwed.
- Ffiniau proffesiynol wedi eu croesi neu yn niwlog.

### Pryderon iechyd

- Pryder/iselder
- Ysmygu/defnyddio alcohol.
- Pwysau gwaed uchel/clefyd siwgr/gordewdra.

### Cyfathrebu

- Arddull fygythiol a bychanol.
- Defnydd amhriodol o wefannau rhwydweithio cymdeithasol.

### Hyfforddi a Datblygu

- Methu gweld pwysigrwydd hunanddatblygiad.
- Cymwyseddau heb eu cwblhau.

# Rhesymau pam nad yw argymhelliad y panel adolygu annibynnol yn cyd-fynd â phenderfyniad arfaethedig yr FSP

Roedd y rhesymau pam y bu i'r panel adolygu argymell bod yr ymgeiswyr yn addas neu yn parhau i fod yn addas yn ymwneud â'r meysydd canlynol.

## Hyfforddiant a chefnogaeth

- Roedd y panel adolygu annibynnol yn ystyried nad oedd yr ymgeiswyr wedi derbyn digon o gymorth gan yr awdurdod lleol, er enghraifft, i alluogi iddynt ddeall cyfrifoldebau gofal carennydd, y rhesymau dros weithio mewn partneriaeth, neu gynorthwyo gyda llety.
- Nid oedd cyfloed hyfforddi perthnasol a hygyrch ar gael bob amser i'r gofalwr (carennydd).

*(O dan Safon Ofynnol Genedlaethol 33, disgwylir i anghenion cymorth teulu a ffrindiau gael eu bodloni yn yr un ffordd ag unrhyw ofalwyr maeth eraill).*

## Gweithio mewn partneriaeth

- Roedd y gofalwyr wedi dangos eu parodrwydd a'u gallu i weithio mewn partneriaeth gyda'r awdurdod lleol a gweithwyr proffesiynol eraill, e.e. o ran cyswllt ac addysg.
- Cafwyd hanes o berthnasau gwaith da.
- Roedd y gofalwyr yn dda am gadw cyswllt a rhoi gwybod i'r FSP am y materion hyn.

## Profiad/sgiliau

- Profiad rhianta blaenorol.
- Tystiolaeth o'r gallu i fodloni anghenion y plentyn a darparu amgylchedd diogel a gofalgar.
- Cadw cofnod cadarnhaol o adroddiadau maethu ac adolygiadau cadarnhaol.
- Y gallu i ymdopi a phwysau ymchwiliad a pharhau i weithio gyda'r FSP drwy gyfnodau anodd.

Mewn sawl achos gyda'r gofalwyr carennydd, ystyriwyd bod y lleoliad presennol gyda neiniau a theidiau yn sefydlog neu fod y lleoliad, os gwnaed un, yn debygol o fod er budd y plentyn gan roi ystyriaeth i:

a) negeseuon cadarnhaol o ymchwil i leoliadau gyda gofalwyr carennydd, yn enwedig neiniau a theidiau a'r budd o gael y plentyn yn aros o fewn y teulu estynedig,

b) tystiolaeth o'r ymrwymiad i'r neiniau a'r teidiau.

# Arfer dda a nodwyd gan y panel adolygu annibynnol

Roedd hi'n amlwg mewn sawl achos a ystyriwyd, erbyn yr adeg y cafodd y mater ei ystyried gan y panel adolygu annibynnol, roedd yr FSP eisoes wedi dysgu o'u profiadau ac wedi cymryd camau i wella arferion neu weithdrefnau.

Roedd yr adborth cadarnhaol gan y panel adolygu annibynnol yn rhannu'n dair prif adran.

## Gweithio mewn partneriaeth

- Hanes perthynas gadarnhaol rhwng yr FSP a'r gofalwyr maeth.
- Pob ochr wedi dangos parch at y naill a'r llall.

## Hyfforddiant a chefnogaeth

- Roedd y gofalwyr maeth wedi cael cynnig amrediad da o hyfforddiant ac/neu wedi cael cefnogaeth dda, yn enwedig gan y tîm maethu.
- Roedd yr awdurdod lleol wedi ariannu cymorth annibynnol i'r gofalwr maeth.
- Bu cyswllt cyson rhwng yr awdurdod lleol a'r gofalwr maeth.

## Arferion a phrosesau

- Adroddiadau clir, cytbwys, wedi eu hysgrifennu'n dda.
- Adroddiadau asesu wedi eu cwblhau o fewn amserlen resymol.
- Roedd yr FSP wedi bod ar agor ac yn fyryfriol/roedd yn agored i gydnabod camgymeriadau a phethau wedi eu hepgor.
- Safon dda o hysbysiadau o benderfyniadau cymhwyso yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.
- Roedd y panel FSP wedi cynnig cyfnod prawf i'r gofalwyr.
- Roedd plant naill ai wedi cael eu lleoli o fewn y teulu ymestynnol neu'r awdurdod lleol wedi archwilio lleoli'r plentyn gyda phobl gysylltiedig.
- Cychwyn asesu'r carennydd yn brydlon ar ôl lleoli'r plentyn/plant.

## Cyflwyno cynrychiolwyr yr FSP yn y panel adolygu annibynnol

Mae'r Canllaw Statudol yn caniatáu i asiantaethau anfon dau gynrychiolydd i banel yr IRM. Mae IRM Cymru yn argymell mai'r gweithiwr cymdeithasol a wnaeth yr asesiad neu'r adolygiad a'r rheolwr llinell perthnasol ddylai fynd.

Yn gyffredinol, teimlwyd bod yr FSP wedi anfon y cynrychiolwyr priodol, er mewn rhai achosion nad oedd y gweithiwr cymdeithasol oedd wedi cynnal yr asesiad yn dal i gael ei gyflogi gan yr FSP neu nid oedd ar gael.

Roedd y cynrychiolwyr, yn enwedig y gweithwyr cymdeithasol, yn cyflwyno'n dda, yn hyddysg am yr achosion, yn rhoi cyfrif clir a chynhwysfawr ac roeddent yn dangos parch tuag at yr ymgeiswyr a'r panel adolygu, er bod ychydig o achosion o ymddygiad amharchus. Roedd rhai cynrychiolwyr FSP wedi paratoi'n well nag eraill. Roedd rhai achosion lle nododd y panel adolygu bod y cynrychiolwyr oedd yn weithwyr cymdeithasol naill ai heb gefnogaeth o ran ail gynrychiolydd neu eu bod wedi eu cefnogi'n wael ganddo.

# Pryderon ynglŷn â'r arferion a nodwyd gan y panel adolygu annibynnol

Nodwyd pryderon o ran y meysydd canlynol.

## Asesiadau neu adroddiadau adolygu

*(Cyf: NMS 17 'Digon o ofalwyr gyda'r sgiliau/profiad cywir')*

Yn gyffredinol, roedd ansawdd yr adroddiadau asesu a ystyriwyd yn yr ail a'r drydedd flwyddyn yn well na'r rhai a welwyd yn y flwyddyn gyntaf. Mae rhai o'r pryderon wedi eu rhestru isod.

- Amrywiaeth yn ansawdd yr asesiadau.
- Diffyg eglurder o ran pa wybodaeth ysgrifenedig a roddwyd i'r ymgeiswyr ynglŷn â'r hyn y byddai'r asesiad cyffredinol yn ei olygu.
- Gorddibyniaeth ar adroddiadau llafar.
- Gwybodaeth a rannwyd gan ymgeiswyr heb ei chanlyn neu ei chefnogi wedyn.
- Diffyg tystiolaeth i gefnogi trafodaeth drylwyr o gryfderau a meysydd i'w datblygu.
- Dadansoddi gwael, heb naill argymell casgliad clir neu gasgliad i gyd-fynd â dadansoddiad cynharach ac/neu dystiolaeth annigonol.
- Diffyg cyfraniad gan weithiwr cymdeithasol y plentyn yn asesiad y darpar ofalwr carennydd.
- Anghysonderau yn yr adroddiad.
- Dogfennau heb eu dyddio na'u llofnodi.
- Gofalwyr maeth heb dderbyn adroddiadau'n ymwneud a nhw mewn modd amserol, a heb gael digon o amser a chyfle i ymateb i adroddiadau.
- Diffyg asesu risg o ran materion iechyd.

## Panel FSP

*(Cyf: NMS 9 'Panelau Maethu')*

- Argymhelliad y panel FSP wedi ei wneud heb gael mynediad at y dogfennau llawn priodol.
- Peidio â gwneud newidiadau i adroddiadau atodol cyn cyflwyno i'r panel FSP pan oedd camgymeriadau wedi eu nodi gan y gofalwr.
- Gofalwyr maeth heb gael eu gwahodd i fynychu'r panel (yn arbennig o bwysig os oes posibilrwydd y gellid argymell dod a'u cymeradwyaeth i ben).
- Yr adroddiad hen ei rannu gyda'r ymgeisydd ymlaen llaw.
- Gofalwyr wedi eu cymeradwyo fel rhai tymor hir hyd yn oed pan nad oedd hyn wedi ei argymell gan gynghorydd meddygol yr FSP.
- Proses y panel a'r broses benderfynu'n aneglur.
- Argymhellion yr FSP y dylid dod a'r gymeradwyaeth faethu yn ôl at eu panel eu hunain i'w monitro, o fewn amserlen benodol, heb ei wneud bob amser.

## Cwynion a honiadau

*(Cyf: Canllawiau Arfer Orau Llywodraeth Cymru 'Amddiffyn Plant, Cefnogi Gofalwr Maeth')*

Codwyd nifer o faterion o ran y ceisiadau rheiny lle bu cwynion blaenorol neu honiadau a'r ffordd yr ymdriniwyd â'r rhain.

- Diffyg tystiolaeth fod yr FSPau wedi cydbwyso cryfderau sylweddol y gofalwyr maeth yn erbyn un methiant neu ddigwyddiad neu roi ystyriaeth i'w gyrfa faethu.
- Diffyg tystiolaeth bod honiadau wedi eu hymchwilio'n llawn.
- Diffyg gwybodaeth ysgrifenedig i ofalwyr o ran y broses gwyno a'r hawl i gymorth.
- Aneglur a oedd honiadau blaenorol wedi eu trafod. Cyfeiriwyd yn gyson at hen bryderon/honiadau yn y dogfennau a ddarparwyd gan yr FSP lle nad oedd y canlyniad wedi ei egluro i'r gofalwr maeth neu wedi ei roi'n ysgrifenedig ar y pryd.
- Methiant i gynnal adolygiad ffurfiol yn dilyn ymchwiliad.
- Oedi o dri mis cyn cychwyn ymchwiliad i ddadfeiliad mewn lleoliad.
- Dryswch - trin ymchwiliad fel adolygiad.
- Methiant awdurdod lleol i ddarparu canlyniadau ysgrifenedig o ran honiadau yn erbyn gofalwyr maeth.
- Dogfennau ac adroddiadau ddim yn ateb gofynion y meini prawf a nodwyd yn Arferion Gorau Llywodraeth Cymru wrth ymateb i honiadau yn erbyn gofalwyr maeth.

- Amhriodol derbyn ymddiswyddiad neu bwyso ar y gofalwr i ymddiswyddo lle'r oedd pryderon oedd yn cyfiawnhau dod â'r gymeradwyaeth i ben.

## Gofal carennydd

*(Cyf: FSW Reg 38)*

- Yn rhai o'r ceisiadau y gwrandawyd arnynt yn y ddwy flynedd gyntaf, roedd y plentyn eisoes wedi bod yn y lleoliad am gryn amser cyn gwneud yr asesiad.
- Oedi wrth wneud archwiliadau diogelu ac iechyd a diogelwch sylfaenol lle'r oedd y plentyn eisoes wedi ei leoli.
- Teimlai'r panel adolygu annibynnol mewn nifer o achosion y dylai'r tîm maethu fod wedi eucynnwys yn drylwyr gyda'r lleoliad o gychwyn yr asesiad yn hytrach nag asesu gofalwyr ar gyfer plant penodol heb gyd-destun.

## Hyfforddiant a chymorth i ofalwyr maeth

*(Cyf: FSW Reg 17 yn ogystal â NMS 21 'Rheoli a Goruchwylio Gofalwyr', NMS 23 'Hyfforddi Gofalwyr' ac NMS 33 'Teulu a Ffrindiau yn Ofalwyr')*

- Nifer o achosion o hyfforddiant priodol heb ei ddarparu a chymorth annigonol ac/neu oruchwyliaeth, gan gynnwys i rai gofalwyr newydd.
- Yn aml, gwelwyd y berthynas rhwng y gofalwyr a gweithiwr cymdeithasol y gwasanaeth maethu fel un well na'r berthynas gyda gweithiwr cymdeithasol y plentyn. Mewn nifer o achosion, roedd yr ymweliadau gan weithiwr cymdeithasol y plentyn yn brin.
- Angen am ganllawiau o ran defnyddio gwefannau rhwydweithio cymdeithasol.
- (ar gyfer gofalwyr carennydd) Diffyg hyfforddiant a chymorth cyn ac ar ôl cymeradwyo, e.e. i fynychu grwpiau cymorth.

## Materion lleoli a chydweddu

*(Cyf: FSW Reg 34(b); FSW Reg 35; FSW Reg 17(3); NMS 8 'Cydweddu', NMS 6 'Diogelu a Hybu Lles' ac NMS 9 ' Amddiffyn rhag Camdriniaeth ac Esgeulustod')*

- Cyfathrebu gwael rhwng gweithiwr cymdeithasol y plentyn a'r gofalwyr maeth a gweithiwr cymdeithasol y plentyn ac/neu'r FSP.
- Cydweddu gwael.
- Ymweliadau statudol gan weithiwr cymdeithasol y plentyn ddim yn digwydd.
- Dim tystiolaeth bod materion gofal diogel wedi eu monitro yn ystod y lleoliad.
- Cymeradwyo gofalwyr fel rhai tymor hir yn groes i'r argymhelliad yn adroddiad yr asesiad ac adroddiad y cynghorydd meddygol.

- Rhoi lleoliad cyntaf sy'n gofyn llawer ac yn gymhleth iawn gyda gofalwyr sydd newydd eu cymeradwyo.
- Yr awdurdod lleol wedi cymeradwyo lleoli plant sy'n rhannu ystafell wely lle'r oedd gwybodaeth i awgrymu y byddai hyn yn niweidiol iddynt.
- Methiant yr awdurdod lleol i ddarparu gwybodaeth lawn am blant sy'n derbyn gofal ar adeg y lleoli, er bod y gofalwyr maeth yn amhriodol.
- Defnyddio larwm babi i fonitro sgyrsiau plant.
- Defnyddio gofalwyr y tu allan i'w statws cymeradwy.

## Dod a'r lleoliad i ben

- Peidio cysylltu gyda'r gofalwr maeth ynglŷn â newid mewn cynllun gofal a rhoi ystyriaeth i ddymuniadau a theimladau plentyn.
- Peidio rhoi gwybod i'r gofalwyr maeth bod yr awdurdod lleol wedi rhoi'r rhybudd angenrheidiol i symud y plentyn.

## Cyswllt

*(Cyf: NMS 10 'Hyrwyddo Cyswllt')*

Roedd nifer o faterion wedi eu codi o ran cyswllt, gan gynnwys y rhai a restrir isod.

- Yr awdurdod lleol ddim yn sicrhau bod y gofalwyr maeth yn deall y cyfyngiadau'n llawn o ran cyswllt.
- Materion cyswllt cymhleth, lle gosodwyd cyswllt ar lefel afreal heb lawer o sylw i'r tarfu ar fywyd y teulu neu'r effaith negyddol ar y plentyn.
- Diffyg cytundeb ysgrifenedig clir ynglŷn â'r trefniadau cyswllt, e.e. cludiant a chynnwys y gofalwyr maeth yn y cynllunio.

## Materion eraill ynglŷn ag arferion FSP

*(Cyf: NMS 22 'Goruchwylio Gofalwyr Maeth')*

- Cofnodi gwael a cholli'r cofnodi gan yr FSP.
- Yr FSP ddim yn cydymffurfio â'i bolisiau a'i weithdrefnau ei hun.
- Yr FSP yn dal gwybodaeth yn ôl rhag y gofalwyr rhag amharu ar y lleoliad. .
- Yr FSP ddim yn rhoi llawlyfr diweddar i'r gofalwr (Ref: NMS 22.5).

## Hysbysiad o'r penderfyniad i gymhwyso

Ar y cyfan, roedd safon yr hysbysiadau o'r penderfyniad i gymhwyso yn gwella dros y tairblynedd a astudiwyd, gyda'r rhan fwyaf o'r FSPau yn defnyddio'r un model llythyr neu untebyg i'r un a nodir ym mharagraff 43 o Atodiad A o Ganllawiau Statudol Llywodraeth Cymru i FSPau (Chwefror 2010), h.y. yn nodi hawl y gofalwr maeth i adolygiad annibynnol neu i wneud sylwadau i'r FSP o fewn 28 diwrnod calendr o'r hysbysiad. Ond, roedd ambell anghywirdeb yn parhau, megis:

- Yr hysbysiad o'r penderfyniad i gymhwyso ddim yn cydymffurfio neu ddim ond yn cydymffurfio'n rhannol gyda Rheol 28(6) neu 29(7), h.y. yn nodi'r hawl i gael adolygiad gan yr IRM neu i wneud sylwadau i'r FSP o fewn 28 diwrnod calendr;
- Y penderfyniad i gymhwyso ddim yn ddilys gan fod argymhelliad y panel a phenderfyniad y sawl sy'n gwneud penderfyniadau wedi ei wneud ar sail asesiad anghyflawn;
- Mewn un achos, roedd yr hysbysiad i gais wedi gwneud y casgliad anghywir fod y gofalwr wedi ymddiswyddo;
- Dyddiadau gwahanol ar yr hysbysiad o'r penderfyniad i gymhwyso;
- Yn ystod y flwyddyn gyntaf, mewn rhai achosion, roedd cryn amser rhwng yr argymhelliad gwreiddiol a chyhoeddi'r penderfyniad cymhwyso. Nid dyma'r achos yn yr ail a'r drydedd flwyddyn;
- Yn ystod dwy flynedd gyntaf gweithredu IRM Cymru, adroddodd rhai awdurdodau lleol eu bod o dan bwysau gan y llysoedd i wneud argymhellion a phenderfyniadau cyn i bob archwiliad gael ei gwblhau.

# Amserlenni

Mae'r ymgeiswyr a'r FSPau, yn y rhan fwyaf o achosion wedi bod yn dda am ymateb yn brydlon i geisiadau gan IRM Cymru am wybodaeth a darparu dogfennaeth cyn gynted ag yr oedd ar gael.

Postiwyd pob argymhelliad am adolygiad annibynnol i'r FSP o fewn 10 diwrnod gwaith. Lle gofynnwyd am hynny, er enghraifft, yn achos gweithrediadau gofal oedd ar y gweill, mae'r argymhelliad wedi ei ddarparu i'r FSP yn anffurfiol ar adeg cynharach.

Cafodd y ceisiadau i gyd eu cydnabod a rhoddwyd gwybod i'r FSP o fewn yr amserlen ofynnol.Ym mhob achos, trefnwyd bod y panelau adolygu annibynnol yn adolygu'r ceisiadau o fewn yr amserlen ofynnol o ddau fis a hanner, ac eithrio mewn un achos lle gohiriwyd y panel adolygu, gyda chytundeb yr FSP, oherwydd trefniadau gwyliau'r ymgeiswyr. Bu'n rhaid gohirio un panel am fis ar gais y llus i aros am gwblhau asesiad annibynnol, wedi ei gomisiynu fel rhan o achosion gofal oedd ar y gweill. Mewn tri achos, cafodd y gwrandawiadau eu gohirio yng ngwrandawiad cyntaf y panel adolygu pan ofynnodd y panel adolygu am wybodaeth bellach.

*(Mae Rheoliadau Penderfyniadau Adolygu Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) Rheol 51 – yn caniatau gohirio pan nad oes digon o wybodaeth er mwyn ffurfio argymhelliad neu lle mae'r panel yn dymuno gwneud cais am fwy o wybodaeth. Pan fydd hyn yn digwydd, mae'n rhaid i'r panel gyfarfod eto cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol pan fydd yr wybodaeth sydd ei heisiau ar gael, ond dan unrhyw amgylchiadau dim hwyrach na 28 diwrnod calendr o ddyddiad gohirio'r panel.)*

Mewn un achos, trefnwyd y panel o fewn yr amserlen ac yna bu'n rhaid ei ohirio ychydig cyn y dyddiad a drefnwyd ar gais y llys a'r awdurdod lleol oherwydd yr achosion gofal oedd ar y gweill. Newidiodd y cynllun gofal ar gyfer y plant a thynnwyd y cais yn ei ôl wedyn gan fod y cais wedi ei gymeradwyo wedi hynny gan banel yr awdurdod lleol ei hun yn unol â'r cynllun gofal diwygiedig.

Pan fydd asiantaethau mabwysiadu ac FSPau wedi rhagweld y bydd eu darpar fabwysiadwyr/ofalwyr maeth neu rai sydd eisoes yn bodoli, yn gwneud cais i IRM Cymru ar dderbyn hysbysiad o'r penderfyniad i gymhwyso, maent wedi gallu gwirio gyda staff IRM Cymru os oes cais wedi ei wneud cyn gwneud eu penderfyniad terfynol. Mae swyddfa IRM Cymru'n derbyn galwadau o'r fath yn rheolaidd gan FSPau. Mae hyn yn helpu i sicrhau na wneir penderfyniadau terfynol cyn pryd, gan fod rhai ceisiadau gan ofalwyr maeth wedi eu derbyn gan IRM Cymru ar yr 28ain diwrnod (y dyddiad cau cymwys ar gyfer ceisiadau maethu).

# Adborth ar IRM Cymru

- Nid yw IRM Cymru wedi derbyn unrhyw gwynion ffurfiol ers cyflwyno'r gwasanaeth.
- Caiff adborth ar y gwasanaeth a'r profiad yn y panel ei gasglu drwy gyfrwng holiaduron gan ddefnyddwyr y gwasanaeth ac aelodau'r panel adolygu ym mhob achos.
- Mae'r ymgeiswyr a chynrychiolwyr yr FSP wedi adrodd am fodlonrwydd cyffredinol gyda'r gwasanaeth. Mae pawb a ymatebodd wedi disgrifio'r gwasanaeth fel un prydlon, proffesiynol iawn, wedi ei gydlynu'n dda, ac ystyriwyd bod y cyfathrebu'n dda ac yn glir. Gwelwyd fod y ddogfennaeth yn y pecynnau a gyflwynwyd i'r panel adolygu yn ddefnyddiol iawn.
- Ystyriwyd bod y trefniadau ymarferol megis lleoliad a threfniadau ar ddiwrnod cyfarfod y panel adolygu'n foddhaol neu'n wych ar y cyfan, gyda sylwadau bod proses y panel yn un broffesiynol, llyfn a thrylwyr, y cadeirio o ansawdd uchel a'r argymhellion yn rhai teg.
- Adroddodd cynrychiolwyr eu bod wedi eu trin yn deg a bod y panel wedi dangos parch atynt ac iddynt gael y cyfle i roi eu hochr nhw. Teimlai'r mynychwyr ei bod yn ddefnyddiol cael proffiliau o aelodau'r panel cyn y cyfarfod.
- Nododd rhai FSPau eu bod yn bwriadu cyflwyno agweddau o broses y panel adolygu i'r proses eu hunain, er enghraifft, rhoi llyfryn proffil o aelodau'r panel i ymgeiswyr cyn eu cyfarfod, a newid y ffordd yr oedd y ddogfennaeth wedi ei darparu ar gyfer y panel.
- Mae'r adborth gan aelodau'r panel a defnyddwyr y gwasanaeth wedi tynnu sylw at y rôl werthfawr a chwaraewyd gan y cynghorwyr proffesiynol, cyfreithiol a meddygol i'r panel adolygu.
- Roedd yr ymgeiswyr a chynrychiolwyr yr FSP yn teimlo gan fwyaf eu bod yn gallu cyflwyno'r wybodaeth yr oeddent am ei chyflwyno, er y byddai rhai cynrychiolwyr yr FSP wedi hoffi mwy o gyfle i egluro ynglŷn â rhai materion.
- Roedd un achos o ymgeiswyr ac aelodau'r panel adolygu yn anfodlon gydag FSP yn cyflwyno dogfennaeth newydd yn y cyfarfod, er ei bod yn glir nad oedd hyn yn dderbyniol.
- Mae adborth gan gynrychiolwyr y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd (AJTC), yn anffurfiol ar ddiwedd cyfarfodydd ac yn yr adroddiadau ysgrifenedig, wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth helpu paneli adolygu i ddysgu a datblygu. Mae cynrychiolwyr yr y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a

Thribiwnlysoedd hyd yma wedi siarad yn gadarnhaol iawn am y ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu ac ansawdd y ddogfennaeth a ddarparwyd ar gyfer y panel. Maen nhw wedi ystyried y broses wrando fel un glir ac effeithiol, gyda chwestiynau'n cael eu holi i'r mynychwyr mewn ffordd wrthrychol a theg.

- Mae rôl cynghorydd y panel yng nghyfarfodydd y panel adolygu wedi cael canmoliaeth uchel gan aelodau'r panel adolygu, yn enwedig o ran helpu i gadw sylw'r panel ar y materion perthnasol. Roedd yr AJTC hefyd wedi nodi bod y rôl hon yn hanfodol o ran cadw'r panel ar y llwybr iawn.

# Argymhellion i'r FSPau

1. **Mae'n rhaid i banelau'r FSP sicrhau nad yw argymhellion yn cael eu gwneud gan banel yr FSP hyd nes y bydd asesiad cyflawn wedi ei gwblhau a'i fod yn cynnwys yr holl wybodaeth, fel y nodir yn Atodlen 3 i'r FSW. Ni fydd unrhyw benderfyniad a wneir ar ôl argymhelliad lle nad yw'r asesiad wedi ei gwblhau yn un dilys.**
2. **Mae'n rhaid i hysbysiad o'r penderfyniad i gymhwyso fod yn gwbl eglur mai dyna ydyw. Dylai gynnwys rhesymau a chopi o argymhelliad y panel fel sy'n ofynnol gan Reol 28(6) neu 29 (7) o'r FSW.**
3. **Dylai fod systemau rheoli ansawdd trylwyr mewn lle i sicrhau bod gan y panel ddogfennaeth lawn a chlir cyn gwneud argymhelliad (Cyf: NMS 4 'Monitro a Rheoli').**
4. **Mae'n rhaid i wasanaethau a phanelau gael mecanwaith sicrhau ansawdd cadarn (Cyf: NMS 4 a 31.4).**
5. **Mae'n rhaid i aseswyr gael hyfforddiant a goruchwyliaeth o ansawdd uchel (Cyf: NMS 19 a 20).**
6. **Dylai cytundebau clir gydag aseswyr annibynnol gynnwys cytundeb ynglŷn â chyfrifoldeb yr asesydd unwaith y mae'r asesiad wedi ei gwblhau ac eglurder ynglŷn a phwy sy'n gyfrifol am wneud yr archwiliadau.**
7. **Mae'n rhaid i adroddiadau asesu a baratoir ar gyfer y panel FSP fod ar sail tystiolaeth, yn cynnwys dadansoddi cadarn, dangos cysondeb, cynnwys argymhelliad clir ar gyfer yr aseswr a bod wedi eu llofnodi a'u dyddio (Cyf: NMS 31.4).**
8. **O fewn asesiadau, mae'n rhaid cyfweld a phawb sy'n berthnasol a dylid gwneud ceisiadau am wybodaeth gan unrhyw drydydd parti yn uniongyrchol i'r trydydd parti ac nid trwy'r ymgeisydd.**
9. **Dylai ymgeiswyr gael gweld adroddiadau neu wybodaeth am yr ymgeisydd sy'n cael ei gyflwyno i'r panel, cyn i'r panel ei weld (ac eithrio gwybodaeth trydydd parti) a dylai fod tystiolaeth ysgrifenedig yn cadarnhau bod hyn wedi digwydd. Dylid rhannu'r adroddiadau gyda nhw yn amserol a rhoi digon o amser er mwyn ymateb.**
10. **O ran honiadau yn erbyn gofalwyr, dylai FSPau ddilyn y canllawiau yng Nghanllaw Arfer Orau Llywodraeth Cymru, Amddiffyn Plant, Cefnogi Gofalwyr Maeth (2011).**

11. **Mae angen i ofalwyr carennydd ddeall beth a ddisgwylir ganddynt yn ystod asesiad, cael cynnig hyfforddiant parhaus, a chael cefnogaeth dda ar bob cam, gan gynnwys cefnogaeth i fynychu hyfforddiant (Cyf: NMS 33).**
12. **Mewn asesiadau o ofalwyr carennydd, mae'n rhaid i anghenion y plentyn fod wedi ei ddogfennu'n glir, gan gynnwys manylion sut y gall darpar ofalwyr fodloni'r anghenion rheiny.**
13. **Mewn achosion carennydd, mae angen i'r tîm gofal plant sicrhau bod yr wybodaeth am y plentyn wedi ei chyfathrebu'n gadarn i'r gweithiwr cymdeithasol sy'n asesu.**
14. **Mae angen i FSPau gadw mewn cof, os yw cwestiynau penodol yn cael eu rhoi i ddarpar ofalwyr yn ystod yr asesiad, nid yw'r ymgeiswyr yn gwirfoddoli'r wybodaeth berthnasol bob amser oherwydd nad ydynt yn siŵr beth sydd ei angen ganddynt.**
15. **Mae angen i bob gofalwr maeth gael cymorth digonol, perthnasol a pharhaus a derbyn yr wybodaeth ynglŷn â'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael (Cyf: NMS 21).**
16. **Dylid rhoi canllawiau i ofalwyr maeth ynglyn a defnydd priodol o wefannau rhwydweithio cymdeithasol (Cyf: NMS 23).**
17. **Dylid rhoi sylw i'r anghenion hyfforddi a ddaw i'r amlwg yn adroddiad Ffurflen F/gofalwyr maeth.**
18. **Dylid cynnal asesiad risg cyn bob lleoliad a monitro materion gofal diogel yn barhaus.**
19. **Mae'n bwysig fod FSPau yn cydbwyso eu pryderon ynglyn a digwyddiad penodol yn erbyn gyrfa gyfan gofalwr maeth.**
20. **Nid yw'n ddiogel nac yn briodol i FSP roi pwysau ar ofalwr maeth i ymddiswyddo lle mae pryderon sy'n cyfiawnhau dod â'r gymeradwyaeth i ben.**
21. **Mae angen cynnwys gofalwyr maeth wrth gynllunio trefniadau cyswllt. Dylent gael copi o'r cynllun cyswllt a chael canllawiau clir ynglŷn â'r trefniadau a'r ffiniau perthnasol.**
22. **Mae angen i ddarparwyr maethu annibynnol ystyried oblygiadau unrhyw benderfyniad a wneir gan yr awdurdod lleol ynglyn a lleoliad a sut gallai'r rhain effeithio ar y gofalwr maeth.**
23. **Dylid ystyried cyfarfodydd cyn tarfu lle bo'n berthnasol.**

# Casgliad

Dylid cadw mewn cof bod IRM Cymru yn dod yn rhan o'r achosion rheiny lle mae anghydweld a materion cymhleth yn unig. Mae'n cael ei gydnabod bod asesiadau'n gymhelth a bod cryn dipyn o waith llwyddiannus nad yw'n dod i sylw'r IRM.

Bu llawer o ddysgu defnyddiol i FSPau o ran arferion a gweithdrefnau sy'n codi o'r ceisiadau hyd yma.

- Mae safon yr hysbysiadau o benderfyniadau cymhwyso wedi gwella ers i Reoliadau IRD ddod i rym, gyda mwyafrif yr FSPau yn defnyddio'r model fel y'i nodir yng Nghanllawiau  Llywodraeth Cymru i Reoliadau IRD. Mae'r hysbysiadau'n cael eu dyddio hefyd a'u hanfon at ymgeiswyr mewn mwy o bryd, ond, dydyn nhw ddim bob amser yn cynnwys y rhesymau na chopi o argymhelliad y panel.
- Mae nifer y ceisiadau a dderbyniwyd ac a wrandawyd ym mhob blwyddyn o weithredu wedi bod yn gyson ac mae'r holl geisiadau cymwys wedi ymwneud â maethu. Ond yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu, roedd cyfran uchel o geisiadau gan ofalwyr carennydd, ac yn yr ail a'r drydedd flwyddyn, mae hyn wedi ei gydbwyso gyda cheisiadau gan ddarpar ofalwyr maeth neu ofalwyr maeth cymeradwy o'r brif ffrwd. Er bod sawl cais yn ystod y flwyddyn gyntaf ynglyn a newid arfaethedig yn nhelerau cymeradwy gofalwr maeth, ni fu rhai o gwbl yn yr ail na'r drydedd flwyddyn. Nid yw'n hysbys pa ffactorau sy'n penderfynu ar nifer a math y ceisiadau.
- Mae'r ceisiadau ynglŷn â gofalwyr carennydd wedi codi nifer o faterion ac wedi cael eu cymhlethu gan achosion gofal parhaus ac asesiadau eraill yn cael eu cynnal. Mae'r achosion hyn, yn benodol, wedi dangos bod angen gwell canllawiau, hyfforddiant a chymorth i ofalwyr maeth o'r cychwyn. Nid oedd rhai yn glir ynglyn a disgwyliadau'r awdurdod lleol ganddynt yn ystod yr asesu ac ar ôl cymeradwyo.
- Mae'r ceisiadau wedi codi nifer o faterion ynglyn a honiadau a chwynion a sut yr ymdriniwyd â'r rhain. Mewn sawl achos, nid oedd canlyniad y rhain yn glir naill ai i'r gofalwr maeth neu i'r panel adolygu annibynnol.
- Mae'r panelau adolygu annibynnol wedi eu sicrhau bod angen nodi bod FSPau wedi dangos nad ydynt yn barod i gymryd risg wrth gymeradwyo gofalwyr lle nad oes digon o dystiolaeth o'u gallu i rianta na'r gallu i ddarparu gofal diogel neu weithio mewn partneriaeth gyda'r FSP.
- Mae'n dda gwybod bod mwyafrif yr FSPau wedi croesawu adborth ac wedi cymryd y cyfle i wella eu polisïau neu weithdrefnau. Cynhyrchodd un FSP gynllun gweithredu cynhwysfawr o ganlyniad i'r adborth. Mae rhai wedi addasu prosesau eu panelau er mwyn adlewyrchu proses y panel adolygu.

- Bu dysgu parhaus ar gyfer gwasanaeth IRM Cymru. Mae aelodau a chynghorwyr y panelau adolygu annibynnol wedi parhau i ddangos lefel uchel o ymrwymiad i'w rôl ac i ddarparu gwasanaeth teg a phroffesiynol.

  Gwahoddir unrhyw staff i'r FSPau neu'r asiantaethau mabwysiadu fyddai'n hoffi i reolwr cytundeb yr IRM ymweld â'u timoedd neu banelau i rannu gwybodaeth am yr IRM yng Nghymru, i gysylltu gydag IRM Cymru drwy irm@irmcymru.org.uk.

  Mae gwybodaeth am IRM Cymru ar gael yn www.irmcymru.org.uk, neu drwy gysylltu â swyddfa IRM Cymru drwy irm@irmcymru.org.uk ar 0845 873 1305.

Cyhoeddwyd yn 2013 gan

**Mecanwaith Adolygu Annibynnol Cymru**
7 Cleeve House
Lambourne Crescent
Caerdydd
CF14 5GP

Ffôn: 0845 873 1305
E-bost: irm@irmcymru.org.uk
www.irmcymru.org.uk

**Cymdeithas Fabwysiadu a Maethu Cymru**
www.baaf.org.uk

Mae Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain yn elusen gofrestredig rhif 275689 (Cymru a Lloegr) a SCO39337 (Yr Alban).
Cofrestredig fel cwmni cyfyngedig a sicrwydd yn Lloegr a Chymru rhif 01379092
Swyddfa gofrestredig, Saffron House, 6 – 10 Kirby Street, Llundain EC1N 8TS.

Ysgrifennwyd gan Maureen Ingham
Dyluniwyd gan Helen Joubert Design